Dr Ben Calvert, Is-Ganghellor

Dr Ben Calvert, Vice-Chancellor

Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

Cyflwyniad

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac fe saif fel ein datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31/07/2024.

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd. O fewn cadwyn gyflenwi sefydliad, mae iddi nifer o ffurfiau, yn cynnwys llafur dan orfodaeth, caethwasanaeth oherwydd dyledion (neu gaethwasanaeth), caethwasiaeth plant a masnachu pobl, y mae dwyn rhyddid person gan berson arall er mwyn cam-fanteisio arno er budd personol neu fasnachol yn gyffredin iddynt i gyd.

Rydym yn ymrwymedig at wella ein harferion yn barhaus i fynd i'r afael â chaethwasiaeth a masnachu pobl ym mhob ffurf ar draws cadwyni cyflenwi ein sefydliad.

Strwythur y Sefydliad

Mae Prifysgol De Cymru yn Brifysgol amlddisgyblaethol fawr wedi ei lleoli yn Ne Cymru, gyda champysau ym Mhontypridd, Caerdydd, a Chasnewydd. Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful yn is-gyrff dan berchnogaeth lawn y Brifysgol ond yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u Byrddau Cyfarwyddwyr eu hunain.

Arweinir y Brifysgol gan yr Is-Ganghellor, Dr Ben Calvert, gyda chymorth Tîm Gweithredol bychan a chyngor gan ei Bwrdd Academaidd. Mae'r Brifysgol yn Gorfforaeth Addysg Uwch ac fe'i llywodraethir gan Fwrdd Llywodraethwyr, y mae mwyafrif ei lywodraethwyr yn rhai annibynnol. Yn academaidd, mae'r Brifysgol wedi ei threfnu'n dair cyfadran, pob un â nifer o ysgolion. Mae gan y Brifysgol tua 26,180 o fyfyrwyr ac mae'n un o'r fwyaf, o ran niferoedd myfyrwyr, yn y DU.

Ein cadwyni cyflenwi

Mae'r Brifysgol yn caffael ei hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau a gwaith mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan gan greu budd nid i'r sefydliad yn unig, ond hefyd i'r gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi. Mae cadwyni cyflenwi'r Brifysgol yn bennaf mewn pump o 'uwch-gategorïau', sef:

- Offer a Nwyddau Traul Labordai
- Adnoddau Llyfrgell
- Gwasanaethau Proffesiynol (gan gynnwys asiantaethau recriwtio rhyngwladol)
- Offer a Gwasanaethau TGCh
- Nwyddau (gan gynnwys bwyd a chyflenwadau arlwyo), Gwasanaethau a Gwaith Ystadau

Y prif gategorïau o fewn ein cadwyn gyflenwi sydd â risg sylweddol o gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yw cyflenwadau swyddfa, nwyddau traul labordy, cyflenwadau bwyd ac arlwyo, dillad, offer TGCh, asiantaethau recriwtio rhyngwladol a rhai gwasanaethau ystadau, megis gwasanaethau glanhau sy'n cael eu rhoi ar gontract allanol o bryd i'w gilydd. Mae'r categorïau hyn wedi'u nodi ar sail y wlad y gwneir y nwyddau ohoni a'u cyrchu, neu lle mae'r gwasanaeth a brynwyd yn cynnwys darparu gweithlu i ddarparu'r gwasanaeth gofynnol.

Mae Prifysgol De Cymru yn aelod o Gonsortiwm Prynu Addysg Uwch Cymru (HEPCW). Mae HEPCW yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â Chonsortia Prynu Prifysgolion y DU a grwpiau cenedlaethol, y mae ganddo berthynas flaengar a llwyddiannus â nhw. Mae'r rhaglen gyd-gontractio yn darparu portffolio cydweithredol cynhwysfawr ac aeddfed, sy'n cynnwys rhai o'r categorïau risg uchel a restrir uchod.

Mae'n ofynnol i gyflenwyr yn y categorïau risg uwch hyn sy'n rhan o'r fframweithiau cydweithredol hyn ymrwymo i God Sylfaenol y Fenter Masnachu Moesegol (ETI). I'r rhai nad ydynt eto wedi ymuno â'r ETI, mae Consortia Prynu'r Prifysgolion yn parhau i weithio i'w perswadio i ymuno. Mae Cod Sylfaenol ETI wedi'i seilio ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) ac mae'n god ymarfer llafur a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n mynnu bod:

1. Cyflogaeth yn cael ei dewis yn rhydd;
2. Yr hawl i gydgysylltu a bargeinio ar y cyd yn cael ei barchu;
3. Amodau gwaith yn ddiogel ac yn hylan;
4. Dim llafur plant yn cael ei ddefnyddio;
5. Cyflogau byw yn cael eu talu;
6. Oriau gwaith heb fod yn ormodol;
7. Dim camwahaniaethu ar waith;
8. Cyflogaeth gyson yn cael ei darparu; a
9. Dim triniaeth llym nac annynol yn cael ei chaniatáu.

Offer TGCh

Mae Prifysgol De Cymru yn rhan o nifer o drefniadau prynu offer TGCh ar y cyd. Drwy'r trefniadau prynu cydweithredol hyn, a lle mae'n weithredol fel rhan o'r cytundeb, mae'r Brifysgol yn parhau i gefnogi egwyddorion Electronics Watch, sefydliad monitro annibynnol sy'n gweithio i sicrhau parch at hawliau llafur yn y diwydiant electroneg byd-eang drwy bwrcasu cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn Ewrop. Trwy hyn, rydym yn parhau i weithio gyda'r cyflenwyr sydd wedi contractio gennym i weithredu ac ymrwymo i drefniadau monitro newydd pan fo codau ymddygiad corfforaethol a pholisïau a gweithdrefnau archwilio cymdeithasol yn methu â bod yn dryloyw ac yn effeithiol.

Ein Polisïau ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym ddull alinio sefydliadol o fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ym mhob ffurf o fewn ein cadwyn gyflenwi neu mewn unrhyw ran o'n busnes.

Yn wyneb y rhwymedigaeth sydd arnom i adrodd ar fesurau sy'n sicrhau bod pob rhan o'n sefydliad a'n cadwyni cyflenwi yn rhydd rhag caethwasiaeth, rydym yn parhau i adolygu ein polisïau a gweithdrefnau gweithle i asesu a ydynt yn effeithiol wrth adnabod materion yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern ac yn mynd i'r afael â nhw.

Mae'r Brifysgol yn parhau i ystyried polisïau'r llywodraeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch cadwyni cyflenwi moesegol, a all newid gyda Llywodraeth newydd y DU yn ei lle.

Bydd ein polisïau a gweithdrefnau gweithle yn parhau i arddangos ein hymrwymiad at weithredu'n foesegol a chydag integriti yn ein holl berthnasau busnes ac at weithredu a gorfodi systemau a dulliau rheoli effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn digwydd mewn unrhyw ran o'n cadwyni cyflenwi.

Byddwn yn cwblhau adolygiad blynyddol o'n polisïau a gweithdrefnau gweithle. Bydd unrhyw fylchau a nodir neu ofynion newydd polisi'r llywodraeth yn cael eu hymgorffori, a bydd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadnewyddu a'u hailgyhoeddi yn ôl yr angen.

Prosesau diwydrwydd dyladwy o ran caethwasiaeth a masnachu pobl

Yn rhan o'n gwaith i adnabod a lliniaru risgiau byddwn yn parhau i roi systemau ar waith i:

- Adnabod ac asesu meysydd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Lliniaru'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.
- Monitro meysydd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Amddiffyn chwythwyr chwiban.

Yr hyn rydym wedi'i wneud o ran datblygu ein polisïau a'n harferion:

- O fewn strwythur y tîm caffael, mae'r rôl sy'n ymroddedig i reoli cyswllt cyflenwyr bellach wedi'i sefydlu a'i gwreiddio; mae'r cylch gwaith yn cynnwys deall y risgiau yn ein cadwyn gyflenwi.
- Mae Cod Ymddygiad Cyflenwyr wedi'i ddatblygu yn unol â Chod Ymddygiad Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy UKUPC a disgwylir iddo gael ei roi ar waith yn 2024.
- Rydym wedi cymryd camau ac wedi cynllunio camau gweithredu i wella ein polisïau a'n harferion ar gaethwasiaeth fodern, gyda'r bwriad o'u diweddaru yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol PDC.
- Cynhaliom leoliad myfyriwr a wnaeth adolygiad o'n risg o gaethwasiaeth fodern drwy'r gadwyn gyflenwi; mae ail fyfyriwr wedi ymuno â'r tîm i weithio ar integreiddio asesiadau risg cynaliadwy i'n proses gaffael.
- Rydym wedi parhau i gydweithio gyda Phrifysgolion Cymru ar weithredu 12 ymrwymiad Cod Ymddygiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac mewn cydymffurfiaeth â geiriau ac ysbryd deddfau rhyngwladol, a rhai'r DU a'r UE.
- Mae gennym fynediad parhaus at y wefan Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (tiscreport.org/wales), i alluogi mwy o amlygrwydd o reolaeth ein cadwyn gyflenwi o'r risg hon yn eu cadwyn gyflenwi.
- Rydym yn parhau i ddatblygu ein perthynas waith gyda thîm Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am greu polisïau newydd ar gyfer cyrff sector cyhoeddus Cymru.
- Mae'r Cyfarwyddwr Caffael yn parhau i weithio gyda thîm Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Alluogrwydd ac Arweinyddiaeth o fewn timau caffael ledled Cymru, ac mae'n Gadeirydd ar gyfer gweithgor cysylltiedig. Trwy hyn, mae PDC yn cael mewnwelediad a mewnbwn i ba gymorth a hyfforddiant a gynigir i weithwyr proffesiynol ym maes caffael yn sector cyhoeddus Cymru.
- Mae polisi chwythu'r chwiban bellach wedi'i wreiddio ym mholisïau PDC a ffyrdd o weithio yn PDC.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud o ran datblygu ein polisïau a'n harferion:

- Parhau i rannu ein set o gwestiynau diwygiedig i'w ddefnyddio mewn dogfennau tendro gyda rhanddeiliaid, felly gofynnir y cwestiynau mwyaf priodol ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau cynigwyr i nodi a dileu llafur gorfodol yn eu gweithrediadau eu hunain gyda chynlluniau adolygu a gweithredu dilynol.
- Byddwn yn mireinio'r asesiad risg cynaliadwy fel rhan o'n prosesau caffael, gan sicrhau bod ein polisïau a'n harferion yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i gynaliadwyedd a ffynonellau moesegol
- Byddwn yn lansio Cod Ymddygiad Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy UKUPC, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i safonau moesegol a ffynonellau cyfrifol ar draws ein prosesau caffael.
- Byddwn yn adeiladu ar ganfyddiadau'r adolygiad risg o gaethwasiaeth fodern a wnaed gan fyfyriwr ar leoliad, gan ddefnyddio'r mewnwelediadau i gryfhau a mireinio ymhellach ein polisïau a'n harferion wrth fynd i'r afael â risgiau caethwasiaeth fodern o fewn ein cadwyn gyflenwi.
- Parhau i lansio a monitro Net Positives i'n cadwyn gyflenwi, gan flaenoriaethu'r cyflenwyr sydd angen Datganiad Caethwasiaeth Fodern ond nad ydynt ar Net Positives ar hyn o bryd.
- I'r cyflenwyr hynny sy'n adnabod eu hunain fel 'risg uchel' o gaethwasiaeth fodern yn eu cadwyn gyflenwi, byddwn yn parhau i adolygu eu gwybodaeth (os yw ar gael) ar wefan Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (tiscreport.org/wales).
- Trwy rôl y Rheolwr Cyswllt Cyflenwyr yn y tîm caffael, byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r map trywydd o weithgareddau i ddeall ymhellach y risg yn ein cadwyn gyflenwi.
- Parhau i ddatblygu ein cynllun i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi nad yw eto ar Net Positives.
- Ystyried ffyrdd priodol, effeithiol a chymesur o godi ymwybyddiaeth staff; byddwn yn cyfeirio at y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a'n hymrwymiadau yn ein rhaglen ymsefydlu, ar gyfer aelodau newydd o'r tîm Caffael ac ar gyfer pob aelod newydd o staff.
- Ystyried ffyrdd priodol, effeithiol a chymesur o godi ymwybyddiaeth cyflenwyr cyn ac ar ôl dyfarnu contract.

Hyfforddiant

I sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o ran risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi ac yn ein sefydliad, rydym yn bwriadu parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a thorri ar hawliau dynol ymhlith ein staff a threfnu hyfforddiant addas. Gyda thîm llawn bellach wedi'i sefydlu, bydd staff Caffael yn cwblhau hyfforddiant ar-lein 'Caffael a Chyflenwi Moesegol' y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS).

Rydym wedi archwilio rhaglen hyfforddi HEPA ar gyfer staff nad ydynt yn staff caffael a byddwn yn ei chyflwyno i rhanddeiliaid os yw'n briodol ac yn ôl yr angen.

Rydym yn parhau i ymchwilio i ba atebion hyfforddi sy'n bodoli ar Gaethwasiaeth Fodern fel pwnc, ar gyfer tîm Caffael PDC, ein partneriaid cyflenwi a thrydydd partïon eraill. Rydym yn parhau i adolygu'r modiwlau hyfforddiant e-ddysgu sydd ar gael drwy Goleg Masnachol y Llywodraeth, a byddwn yn eu cyflwyno os yw'n briodol ac yn ôl y gofyn.

Camau pellach

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddeall ei chadwyni cyflenwi'n well a gweithio tuag at fwy o dryloywder a chyfrifoldeb at bobl sy'n gweithio oddi mewn iddynt.
Mewn contractau sydd eisoes wedi eu dyfarnu, a ninnau'n rhan ohonynt, byddwn yn adnabod y cadwyni cyflenwi hynny sy'n cynrychioli risg canolig i uchel o gaethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur dan orfodaeth ac wedi ei glymu, a throseddau hawliau llafur.

Yn gweithio gyda'n cyflenwyr, grwpiau prynu cydweithredol a sefydliadau perthnasol eraill, byddwn yn monitro'r cadwyni cyflenwi hynny sydd wedi eu hadnabod fel rhai â risgiau posibl yn fwy trylwyr ac yn gweithredu'n briodol yn ôl yr angen.

Cymeradwywyd a chytunwyd ar y Datganiad ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl yng Nghyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr PDC ar 25 Tachwedd 2024.

LLOFNOD: **Dyddiad:** 25 Tachwedd 2024

LOUISE EVANS
CADEIRYDD BWRDD Y LLYWODRAETHWYR
PRIFYSGOL DE CYMRU